OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 990 (Cy.130)

Y GYMRAEG, CYMRU

Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012

Gwnaed - - - -	*29 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2012*

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2)(k) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**) a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 150(5) ac adran 154 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo Swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 1993" ("*1993 Act*") yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**).

Trosglwyddo'r swyddogaethau yn adran 3 o Ddeddf 1993

3. Trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan adran 3 o Ddeddf 1993 i Weinidogion Cymru (yn ychwanegol at eu trosglwyddo i Gomisiynydd y Gymraeg gan adran 143(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

(**1**) 2011 mccc 1
(**2**) 1993 p.38.

Darpariaethau Trosiannol

Datganiad o gyfrifon olaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg

4.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio datganiad o gyfrifon mewn perthynas â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 hyd 31 Mawrth 2012.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r datganiad o gyfrifon at Archwilydd Cyffredinol Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Awst 2012.

(3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad o gyfrifon a gosod copïau o'r datganiad a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adroddiad blynyddol olaf Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar y modd yr arferodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2011 hyd 31 Mawrth 2012.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Diwygiadau Canlyniadol

Deddf Llywodraeth Cymru 1998

6. Yn Rhan I (Cyrff a allai golli neu ennill swyddogaethau) o Atodlen 4 (Cyrff cyhoeddus a allai gael eu diwygio gan y Cynulliad) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**), hepgorer paragraff 13.

Deddf Safonau Gofal 2000

7. Ym mharagraff 23 o Atodlen 2A (Personau sy'n destun adolygiad gan y Comisiynydd o dan adran 72B) i Ddeddf Safonau Gofal 2000(**4**), yn lle "The Welsh Language Board." rhodder "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

8. Yn Rhan VI (Cyrff a swyddi cyhoeddus eraill : cyffredinol) o Atodlen 1 (Awdurdodau cyhoeddus) i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(**5**), hepgorer "The Welsh Language Board." a mewnosoder yn y man priodol "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

9. O dan y pennawd "Miscellaneous" yn Atodlen 3 (Awdurdodau rhestredig) i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005(**6**), yn lle "The Welsh Language Board." rhodder "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006

10. O dan y pennawd "Miscellaneous" yn Atodlen 2 (Personau sydd a'u swyddogaethau yn destun adolygiad o dan adran 3) i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(**7**), yn lle "The Welsh Language Board." rhodder "Comisiynydd y Gymraeg (The Welsh Language Commissioner).".

(**3**) 1998 p.38.
(**4**) 2000 p.14. Mewnosodwyd y cyfeiriad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan adran 3(2) o Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (p. 18) a'r Atodlen iddi.
(**5**) 2000 p. 36.
(**6**) 2005 p. 10.
(**7**) 2006 p. 30.